



Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd 23 Ebrill 2021

Yn bresennol:		Yn bresennol:
Shan Morgan Meena Upadhyaya Ellen Donovan Gareth Lynn Jeff Farrar Andrew Goodall Andrew Slade Tracey Burke Reg Kilpatrick Peter Kennedy Andrew Jeffrey Natalie Pearson David Richards Helen Lentle Robin Bradfield Charlotte Cosserat Piers Bisson Matthew Denham-Jones		Simon Jones Ysgrifenyddiaeth: Charmain Watts
Ymddiheuriadau:		
Des Clifford Gawain Evans		

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

1. Croeso

- 1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratodau ar gyfer Etholiadau'r Senedd eleni.
- 1.2 Cytunodd y Bwrdd ar y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf.

2. Diweddariadau gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan gynnwys y diweddaraf am COVID-19

- 2.1 Rhoddodd Andrew Goodall wybod i Fwrdd Llywodraeth Cymru ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran COVID-19 a'r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y cyfraddau COVID-19 presennol yng Nghymru, y niferoedd brechu, gweithgareddau gofal critigol, a rhestrau aros y GIG.
- 2.2 Gofynnodd Ellen Donovan am gynllun ar gyfer ymateb i'r posibilrwydd o ragor o bandemigau. Cyfeiriodd Andrew at y cynllun i adfer gwasanaethau iechyd a gofal ar ôl effeithiau'r pandemig, sef cynllun a oedd wedi cael ei anfon at aelodau'r Bwrdd. Eglurodd Andrew y bydd y cynllun yn canolbwyntio ar gamau gweithredu mwy tymor hir. Hefyd fe gynigiodd rannu'r model ar gyfer y dyfodol â'r cyfarwyddwyr anweithredol, all-lein.
- 2.3 Gofynnodd Meena Upadhyaya ba gynlluniau a oedd ar waith i leihau'r rhestrau aros hir. Eglurodd Andrew fod y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu sy'n rhoi sylw i'r mater hwn drwy adeiladu ar y gwaith o newid gwasanaethau, technoleg, a phlatfformau digidol.

CAM GWEITHREDU 1: Cynnwys eitem ar yr agenda yn y dyfodol ynghylch y rhaglen adfer yn canolbwyntio ar niwed a rhestrau aros.

- 2.4 Rhoddodd Reg Kilpatrick yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y lefel rhybudd bresennol, gan ddweud y byddai lletygarwch awyr agored yn agor o ddydd Llun, gyda negeseuon cryf iawn ynghylch y rheolau a'r rheoliadau. Hefyd, rhoddodd wybodaeth i'r Bwrdd am y cynlluniau a'r llinell amser ar gyfer llacio'r cyfyngiadau ymhellach.

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

- 2.5 Canolbwyntiodd diweddariad Andrew Slade ar y prif feysydd gwaith ar hyn o bryd, gan gynnwys datgloi atyniadau twristiaeth, digwyddiadau, a lletygarwch o ganlyniad i lacio'r cyfyngiadau; effeithiau economaidd y pandemig ar fusnesau a manwerthwyr; ac ymadael â'r UE. Hefyd, dywedodd fod llawer iawn o waith ar y newid yn yr hinsawdd yn parhau i fynd rhagddo, oherwydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o allyriadau sero-net erbyn 2050.

CAM GWEITHREDU 2: Cynnwys eitem ar y newid yn yr hinsawdd ar yr agenda yn y dyfodol.

- 2.6 Rhoddodd Tracey Burke wybodaeth a oedd yn canolbwyntio ar y diweddaraif ynglŷn â digartrefedd ac addysg. Rhoddodd Tracey wybod i'r Bwrdd am y gwaith i ailagor ysgolion a chyflwyno polisi profi ar gyfer athrawon a dysgwyr o flwyddyn 7. Eglurodd Tracey fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i ddeall unrhyw niwed i blant a phobl ifanc a allai ddigwydd o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Mae rhaglen yn cael ei gweithredu sy'n adeiladu ar y gwaith a wneir i sicrhau sefydlogrwydd a dilyniant i blant a phobl ifanc.
- 2.7 Rhoddodd Piers Bisson ddiweddariad ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer cynnal yr etholiadau a fyddai'n digwydd maes o law, a chefnogi'r Llywodraeth newydd, a hefyd y gwaith sy'n gysylltiedig â thymor y Senedd nesaf, cyfathrebu, cysylltiadau rhyngwladol, a WEFO.

3. Risgiau Iechyd a Diogelwch

- 3.1 Rhoddodd Andrew Slade a Simon Jones drosolwg o'r risgiau y mae Gweinidogion a swyddogion yn agored iddynt ac sy'n gysylltiedig â'r Asedau Priffyrdd.
- 3.2 Eglurodd Simon mai Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Gan hynny, mae ganddynt ddyletswyddau statudol tuag at gyflwr y rhwydwaith. Trafododd y Bwrdd ddifrifoldeb y gwaith hwn, a hefyd y cyllid ar ei gyfer. Cynigiodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylem barhau i weithredu rhaglen sy'n seiliedig ar risg i reoli'r gwaith hwn, a bod angen cynnal trafodaethau pellach brys â'r Gweinidogion i edrych ar faterion a oedd yn ymwneud â chyllid.

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

CAM GWEITHREDU 3: Parhau i weithredu rhaglen yn seiliedig ar risg i reoli'r gwaith o reoli'r draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd ar draws Cymru.

CAM GWEITHREDU 4: Cynnwys diweddariad ar risgiau iechyd a diogelwch fel eitem reolaidd.

- 3.3 Mynegodd Gareth Lynn, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ei bryderon, gan egluro ei bod yn hanfodol bwysig bod pob dull posibl yn cael ei defnyddio i sicrhau bod Gweinidogion yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Awgrymodd Gareth y dylid cynnig hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â dynladdiad corfforaethol i Weinidogion, a chynigiodd ysgrifennu llythyr, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor, i'w gynnwys yn yr wybodaeth frifio ar gyfer Gweinidogion newydd. (Gweler y nodyn ychwanegol ar gyfer y cofnod oddi wrth Gareth Lynn yn nolen iShare cofnodion y Bwrdd.)
- 3.4 Eglurodd Andrew fod tri chategori o risgiau iechyd a Diogelwch i Lywodraeth Cymru ei hunan: cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru i'n staff; cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru i ddefnyddwyr asedau a gwasanaethau a reolir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol; a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o ran materion y bernir eu bod yn fawr a/neu amlasiantaeth sydd mewn gwirionedd o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnwys pob un o'r tri risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

CAM GWEITHREDU 5: Dylid sicrhau bod y tri chategori o risg y tynnodd Andrew Slade sylw atynt yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

- 3.5 Trafododd y Bwrdd ymhellach y risg o ymchwiliad a/neu faterion yn ymwneud â dynladdiad corfforaethol a allai mewn egwyddor godi o dan bob un o'r tri maes, a chytunodd yr aelodau ar y camau gweithredu canlynol i sicrhau bod Gweinidogion yn meddu ar yr wybodaeth lawn.

CAM GWEITHREDU 6: Pecyn brifio ar gyfer y Prif Weinidog a'r Gweinidogion nesaf sy'n gyfrifol am drafnidiaeth i gynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynnal a chadw'r draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd ar draws Cymru, ynghyd â llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

CAM GWEITHREDU 7: Cynnig hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â dynladdiad corfforaethol i'r holl Weinidogion newydd.

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

CAM GWEITHREDU 8: Sicrhau bod pob risg sy'n gysylltiedig â chyflwr y draffordd ac asedau'r cefnffyrdd, a gafodd eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd, a pha mor ddifrifol yw'r risgiau hynny, yn cael eu huwchgyfeirio ac y tynnir sylw'r Gweinidogion newydd atynt.

CAM GWEITHREDU 9: Sicrhau bod y broses o uwchgyfeirio risgiau at Weinidogion yn glir, gan ymchwilio sut y gellid gweithredu cofrestr risgiau Gweinidogol (i gynnwys meysydd gwaith cyd-destunol).

4. Diweddariad ar Gyllid

4.1 Cafwyd adroddiad gan Mathew Denham Jones ar ragolygon alldro 2020-21 Llywodraeth Cymru, a'r sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn fel yr oedd ar 15 Ebrill 2021. Hefyd rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau o ran y cynlluniau ar gyfer 2021-22.

Roedd y diweddariad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhagolwg reffeniw
- Rhagolwg cyfalaf
- Yr effaith ar gronfeydd wrth gefn

4.2 Eglurodd Matthew mai'r bwriad oedd cael diweddariad yn seiliedig ar ragolwg lefel uchel, gan gynnwys unrhyw bwysau cyllidebol, a oedd wedi ei gytuno gan y Pwyllgor Gweithredol yn barod ar gyfer y Llywodraeth nesaf. Byddai hynny'n caniatáu i drafodaethau cynnar gael eu cynnal ynghylch unrhyw bwysau, gan gynnwys yr ymateb i'r pandemig ac adfer o'i effeithiau; penderfyniadau ar ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn; a pharatoi ar gyfer cyllideb atodol.

5. Cadw Llywodraeth Cymru yn ddiogel – y diweddaraf am y trefniadau ar gyfer cynlluniau pontio.

5.1 Rhoddodd Peter Kennedy wybodaeth am y trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu sy'n digwydd mewn ymateb i'r newidiadau mewn lefelau rhybudd yng Nghymru.

5.2 Eglurodd Peter y byddem, fel rhan o symud i Lefel Rhybudd 3, yn symud o bresenoldeb o 5% i 20% yn ein pedair prif swyddfa, a'r pedair swyddfa arall sydd ar agor ar hyn o bryd am oriau agor cyfyngedig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi rhagor o swyddfeydd ar gyfer ailagor, fel sy'n gydnaws â'r newid mewn lefel rhybudd.

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

- 5.3 Eglurodd Natalie Pearson fod mesurau helaeth ar waith i helpu i gadw Llywodraeth Cymru yn ddiogel. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys asesiad risg ar gyfer y gweithle, protocolau hylendid, pellter cymdeithasol, Siarteri Adeiladau a Siarteri Is-adrannau. Croesawodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol y ffaith bod camau gweithredu trylwyr yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y staff yn y swyddfeydd. Eglurodd Peter fod y gwaith hwn wedi cael ei gyflawni ar y cyd â chydweithwyr o Ochr yr Undebau Llafur. Adleisiwyd hyn gan yr Ysgrifennydd parhaol a ddiolchodd i Ochr yr Undebau Llafur am ei chynngor a'i chefnogaeth. Dywedodd fod Ochr yr Undebau Llafur hefyd wedi helpu i roi sicrwydd i staff mewn modd a oedd yn hynod werthfawr drwy gydol y cyfnod anodd hwn.
- 5.4 Gofynnodd Peter i aelodau'r Bwrdd roi eu sylwadau cychwynnol am y dull gweithredu ar gyfer cyflwyno profion llif unffordd asymptomatig ar draws swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull gweithredu a fyddai'n annog staff i wneud prawf COVID cyn mynd i mewn i swyddfeydd.

Camau gweithredu a gododd yng nghyfarfod y bwrdd

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
CAM GWEITHREDU 1: Cynnwys eitem ar yr agenda yn y dyfodol ynghylch y rhaglen adfer yn canolbwyntio ar niwed a rhestrau aros.	Ysgrifenyddiaeth	Ar y gweill. Wedi ei threfnu ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd
CAM GWEITHREDU 2: Cynnwys eitem ar y newid yn yr hinsawdd ar yr agenda yn y dyfodol.	Ysgrifenyddiaeth	Ar y gweill. Wedi ei threfnu ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd
CAM GWEITHREDU 3: Parhau i weithredu rhaglen yn seiliedig ar risg i reoli'r gwaith o reoli'r draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd ar draws Cymru.	Simon Jones	Parhaus

SWYDDOGOL - SENSITIF
DRAFFT

LLC PTN - Papur Bwrdd 001

<p>CAM GWEITHREDU 4: Cynnwys diweddariad ar risgiau iechyd a diogelwch fel eitem reolaidd.</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>	<p>Ar gyfer y dyfodol</p>
<p>CAM GWEITHREDU 5: Dylid sicrhau bod y tri chategori o risg y tynnodd Andrew Slade sylw atynt yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p>	<p>Clare Colette</p>	<p>Parhaus</p>
<p>CAM GWEITHREDU 6: Pecyn briffio ar gyfer y Prif Weinidog a'r Gweinidogion nesaf sy'n gyfrifol am drafnidiaeth i gynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynnal a chadw'r draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd ar draws Cymru, ynghyd â llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.</p>	<p>Simon Jones / Gareth Lynn</p>	<p>Parhaus</p>
<p>CAM GWEITHREDU 7: Cynnig hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â dynladdiad corfforaethol i'r holl Weinidogion newydd.</p>	<p>Natalie Pearson / Tîm Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Parhaus</p>
<p>CAM GWEITHREDU 8: Sicrhau bod pob risg sy'n gysylltiedig â chyflwr y draffordd ac asedau'r cefnffyrdd, a gafodd eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd, a pha mor ddifrifol yw'r risgiau hynny, yn cael eu huwchgyfeirio ac y tynnir sylw'r Gweinidogion newydd atynt.</p>	<p>Simon Jones / Shan Morgan</p>	<p>Parhaus</p>
<p>CAM GWEITHREDU 9: Sicrhau bod y broses o uwchgyfeirio risgiau at Weinidogion yn glir, gan ymchwilio sut y gellid gweithredu cofrestr risgiau Gweinidogol (i gynnwys meysydd gwaith cyd-destunol).</p>	<p>Clare Colette / Will Whiteley</p>	<p>Parhaus</p>